# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together


11/02/2022

Annwyl Rieni/Gofalwyr

**Nigel Thomas - Gofalwr**

Yn dilyn cyfnod o salwch mae ein gofalwr wedi penderfynu, wrth iddo nesau at ymddeoliad, yr hoffai ganolbwyntio ar un swydd yn hytrach na dwy. Mae hefyd yn gweithio fel gofalwr ym Mrynmill. Felly, Chwefror 18fed fydd diwrnod olaf Nigel gyda ni yma yn yr ysgol. Mae Nigel wedi gweithio fel gofalwr yn yr ysgol ers 29 mlynedd a hoffem ddiolch yn ddiffuant iddo am y blynyddoedd o wasanaeth y mae wedi ei roi i ni. Os hoffech wneud cyfraniad tuag at anrheg ymadael Nigel anfonwch unrhyw rodd i'r swyddfa erbyn dydd Mawrth 15/2/2022.

**Gweithgareddau disgyblion**

Er ein bod wedi bod o dan y cyfyngiadau uchel iawn gyda chanllawiau covid, mae wedi bod yn hyfryd i ddisgyblion barhau gyda gweithgareddau fel nofio, Addysg Gorfforol, gwersi ffidil ac ysgolion coedwig. Yn y dosbarth, mae disgyblion wedi bod yn mwynhau eu testunau dysgu newydd yn fawr. Peidiwch ag anghofio cadw llygad ar ein tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol a'n cyfrif trydar.






**Rhiant Lywodraethwr**

Llongyfarchiadau i Sophie Rees a fydd nawr yn cynrychioli fel rhiant lywodraethwr ar y corff llywodraethu. Croeso i'r tîm!

**Dydd Gwyl Dewi**

Ar Fawrth y 1af (dydd Mawrth) rydym yn annog disgyblion i ddod i'r ysgol wedi gwisgo mewn gwisg draddodiadol Gymreig. Bydd ffotograffiaeth Finesse hefyd yma i dynnu lluniau unigolion. Yn anffodus, nid yw asesiad risg covid cyfredol y cwmni yn caniatáu iddynt dynnu llun sy'n cynnwys brodyr a chwiorydd.


**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**

**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**

**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**

**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**

**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

**HMS**
Dydd Gwener 18/2/2022
Dydd Llun 21/3/2022

**Hanner tymor 21 -25 Chwefror.** Bydd y disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ar **Ddydd Llun Chwefror 28ain.**

**Gwyl y Banc Ychwanegol**
Fel rhan o ddathliadau jiwbilî platinwm y Frenhines, mae'r rhan fwyaf o ysgolion Abertawe gan gynnwys ysgolion Clwstwr Gŵyr wedi dewis y dyddiad **29ain Ebrill 2022** fel eu dyddiad gŵyl banc. Nodwch ar eich calendrau. Mae Mai 2il hefyd yn ŵyl banc.

**Covid**
Mae niferoedd Covid fel petaent yn sefydlogi yn yr ysgol ac mae niferoedd dosbarthiadau yn araf ddychwelyd i nifer arferol o bresenoldeb. Gwnewch yn siŵr os gwelwch yn dda, os yw eich plentyn yn cael ei gydnabod fel cyswllt agos y byddwch yn profi'n ddyddiol, adrodd y canlyniad a byddwch yn wyliadwrus am symptomau covid ar gyfer pob aelod o'ch cartref. Mae Cyngor Dinas Abertawe wedi penderfynu cadw Ysgolion Abertawe yn y categori risg uchel iawn tan **Fawrth 11eg**. Mae rhai problemau o hyd o ran prinder staff.

**Parcio o gwmpas yr ysgol**
Mae pryderon sylweddol wedi bod ynghylch rhieni'n parcio mewn ffordd beryglus sy'n effeithio ar ddiogelwch teuluoedd sy'n cerdded i'r ysgol yn ogystal ag achosi tagfeydd traffig. **Peidiwch** â pharcio yn y bae bysiau a pheidiwch â pharcio ar y llinellau melyn dwbl.

**Nosweithiau rhieni**
Gan fod ysgolion yn dal yn y categori uchel iawn, mae cynllunio ar gyfer nosweithiau rhieni yn y dyfodol yn anodd felly rydym wedi penderfynu cadw at y cyfarfod TEAMS ar-lein am y tro. Bydd nosweithiau rhieni yn cael eu cynnal yn yr wythnosau yn dechrau 7/3/22 a 14/3/22.

Cliciwch ar y ddolen isod a fydd yn mynd â chi i'r dudalen archebu. Dewiswch enw eich athro dosbarth i weld ei argaeledd yn ystod y pythefnos hwnnw:

https://outlook.office365.com/owa/calendar/YsgolGGBrynyMor@hwbwave15.onmicrosoft.com/bookings/

**Eisteddfod 2022**
Oherwydd prinder staff, presenoldeb disgyblion a chyfyngiadau ar gymysgu disgyblion, dim ond disgyblion o Fl 5 a 6 fydd yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod eleni – mewn cystadlaethau ar gyfer y Parti unsain a deulais. Cysylltwyd eisoes â rhieni'r disgyblion hynny sy'n cymryd rhan. Er bod Miss L Williams ar hyn o bryd yn ceisio paratoi myfyrwyr hyd eithaf ei gallu, yn y pen draw, gall covid effeithio ar allu'r ysgol i gymryd rhan. I'r disgyblion hynny nad ydynt yn cael cyfle eleni, rwy'n hyderus iawn y bydd y cyfle hwnnw ar gael y flwyddyn nesaf.

Yn Gywir

E. Wakeham

Elin Wakeham
(Pennaeth)

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**